# CYD-BWYLLGOR GWE – 24/02/2021

## Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam),Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych) a Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

**Swyddogion yn bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gwawr Meirion (Estyn), Elfyn Jones (GwE), Marc Hughes (GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd, Cyngor Gwynedd – Yr Awdurdod Lletyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE), Annes Sion (Arweinydd Tim Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

Cyn cychwyn y cyfarfod yn ffurfiol, estynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE cydymdeimladau dwys, ar ran y Cydbwyllgor, â Geraint Davies ar ei brofedigaeth diweddar. Cynigwyd unrhyw gefnogaeth sydd angen ar ei ddychweliad i'r gwaith.

Yn ogystal, rhoddwyd diweddariad o'r cyfarfod 'Adolygu a Her' blynyddol efo'r Gweinidog Addysg, diwedd mis Ionawr. Trafodwyd materion megis cefnogi ysgolion, heriau, a chefnogaeth ar gyfer disgyblion. Nodwyd bod adborth y Gweinidog yn gadarnhaol, yn arbennig ei chyfeiriad at ymagwedd ac esiampl o arfer dda yng Ngogledd Cymru.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd) ac Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATEIRON BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd yn gofnod priodol o'r cyfarfod ar yr 11eg o Dachwedd, 2020.

Cyfeiriwyd at Eitem 4 o fewn y cofnodion. Nodwyd bod hyn wedi ei drafod yn y Bwrdd Rheoli. Bydd diweddaraiad o ran materion polisi cenedlaethol yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor fel bo'r angen.

## 5. CYLLIDEB GWE 2020-21 - ADOLYGU CHWARTER 3

**PENDERFYNIAD:**

Derbyn yr adroddiad Adolygiad 3ydd Chwarter o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yr Awdurdod Lletyol gan nodi fod yr adolygiad chwarter 3 yn amcangyfrif gorwariant net o £40,000.

Ni aethpwyd drwy'r gyllideb yn fanwl, fodd bynnag amlinellwyd rhesymau dros y tanwariant sef arbedion costau teithio yn ystod COVID-19 ac aelod o staff ar secondiad. Disgwyliwyd y byddai teithio yn ail gychwyn wrth i ymweliadau addysgol ailgychwyn.

Nodwyd y gall fod her ariannol yn 2021/22 oherwydd ansicrwydd ynglŷn â grantiau penodol. Felly, awgrymwyd a derbyniwyd y dylid neilltuo'r gronfa tanwariant am y tro, cyn ystyried heriau ariannol posib 2021/22.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cydbwyllgor, am yr adroddiad gynhwysfawr.

## 6. CYLLIDEB GWE 2021-2022

**PENDERFYNIAD**

a)Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021/22 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1.

b)Gofyn i'r Rheolwr Gyfarwyddwr, mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Rheoli, i gyflwyno papur yn yr hydref yn adolygu model gwaith GwE.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cyfraniad yr Awdurdodau Lleol yn wraidd i'r gyllideb sylfaenol. Diolchwyd i gyfrifwyr GwE, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Rheolwr Busnes GwE am eu gwaith.

Rhoddwyd trosolwg o gynnwys yr adroddiad gan mai unwaith y flwyddyn yn unig y trafodir hyn. Nodwyd fod effaith chwyddiant wedi'i amcangyfrif a'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol, a bod cyfraniadau ariannol yr Awdurdodau wedi'i addasu yn y modd arferol fel y gwelwyd yn atodiad 2.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Gofynnwyd a oes cynlluniau i adolygu model gwaith GwE, er enghraifft, ynghylch dyfodol y swyddfeydd a ffordd newydd o weithio.
- Ategwyd hyn gan nodi bod mudiadau eraill eisoes wedi datgan na fyddant hwy'n dychwelyd i deithio ar gyfer bob cyfarfod pan ellid gwneud yn rhithiol - rhagwelid y byddai'n arbed arian i GwE yn ogystal.
- Cafwyd ymateb gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn derbyn bod lle i adolygu'r model gwaith, fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn, mae angen ystyried lles staff a'r elfen gymdeithasol a phroffesiynol.
- Ategwyd bod swyddfeydd GwE yn yr Wyddgrug ac ym Mae Colwyn yn denu incwm drwy logi ar gyfer defnydd hyfforddiant. Ychwanegwyd y byddai'n rhaid dadansoddi'r defnydd.
- Yn dilyn hyn cytunwyd bod angen adolygiad ar fodel gwaith GwE a bydd adroddiad i ddilyn yn yr Hydref.

## 7. ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN

**PENDERFYNIAD:**

Cyd-bwyllgor yn nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a nodwyd mai er gwybodaeth yw'r eitem yma. Diolchwyd i'r ysgolion am eu cydweithrediad ac ategwyd fod perthynas gadarn rhwng yr ysgolion a GwE.

Ychwanegodd Pennaeth Addysg (Cyngor Gwynedd) bod y Gweinidog Addysg yn cydnabod bod cydweithio effeithiol ar waith yn y Gogledd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Diolchwyd i Estyn am y darn yma o waith sy'n cysylltu gwaith yr ysgolion, yr Awdurdodau Lleol a GwE.
- Gofynnwyd a fydd ysgolion yn cael seibiant oddi wrth arolygon wrth iddynt ail agor yn raddol ac ymsefydlu'r disgyblion.
- Ategwyd mai blaenoriaeth yr ysgolion fydd lles y plant a materion yn cwmpasu hyn.

## 8. RHAGLEN WAITH GWE - TYMOR YR HYDREF 2020, DIWEDDARIAD & BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL

**PENDERFYNIAD:**

Cydbwyllgor yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad, rhaglen waith GwE a'r blaenoriaethau drafft ar gyfer 2021-22, a adolygir yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE ac atgoffwyd y Cydbwyllgor bod rhaglen waith y gwasanaeth wedi cael ei hail-gyfeirio yn ystod y cyfnod diwethaf.

Cyfeiriwyd at y gwaith a'r cydweithrediad da sydd wedi bod rhwng GwE a'r Awdurdodau Lleol er mwyn cyfarch anghenion cyfnewidiol yr ysgolion. Ategwyd bod rôl yr ymgynghorwyr wedi ei groesawu gan staff ysgolion.

Tynnwyd sylw a rhoddwyd amlinelliad o flaenoriaethau drafft GwE ar gyfer 2021-22.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Nodwyd bod angen sicrhau nad yw athrawon yn dychwelyd mis Medi i unrhyw gwynion apêl graddau arholiad - angen sicrhau bod proses apelio cadarn yn ei le.
- Gofynnwyd lle mae'r atebolrwydd ynghylch dulliau dysgu o bell - nodwyd bod darpariaeth o ysgol i ysgol yn amrywio gyda rhai yn cynnig gwersi byw ac eraill ddim.
- Ategwyd hyn gan nodi efallai bod angen datganiad rhanbarthol gan GwE sy'n cynghori ar y disgwyliadau ynghylch dysgu o bell.
- Nodwyd bod rhieni/gofalwyr wedi derbyn holiadur i fynegi eu disgwyliadau. Cynigwyd bod yr aelodau yn cynnal y sgyrsiau yma gyda'u swyddogion addysg.

**9. CEFNOGI YSGOLION**

**PENDERFYNIAD:**

Cydbwyllgor yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad am brif ffocws gwaith GwE dros y ddau dymor nesaf.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad ac amlinellwyd prif ffocws gwaith GwE dros y ddau dymor nesaf. Nodwyd mai'r ffocws fydd cefnogi staff ysgol ac arweinwyr er mwyn adnabod y llwyddiannau a'r hyn sydd wedi gweithio'n dda iddynt dros y cyfnod diwethaf, yn ogystal ag beth sydd yn parhau i fod angen sylw.

Atgoffwyd y Cydbwyllgor bod Estyn yn bwriadu ailgychwyn gyda'u gwaith y tymor hwn ac felly bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cefnogi'r ysgolionfel eu bod mewn sefyllfa gadarn.

Ymhelaethwyd (Elfyn Jones) ar y camau nesaf sef ffocws ar gefnogi darpariaethau o fewn yr ysgolion, cefnogi dysgu cyfunol, ac ar gefnogi ysgolion i fesur effaith eu gweithredoedd ar y cynnydd mewn dysgu.

Ategwyd y byddai'r camau nesaf yn sicrhau bod bob ysgol mewn sefyllfa hyderus i adrodd ar eu safonau a chynnydd y disgyblion.

Sylwadau sy'n codi o'r drafodaeth:-

- Diolchwyd am y gwaith a nodwyd balchder o glywed y paratoadau sydd ar y gweill.
- Cwestiynwyd y ffordd orau o sicrhau bod y cyllid ychwanegol yn mynd i gael defnydd effeithlon.
- Gofynnwyd beth yw cynlluniau ar gyfer asesu anghenion plant, yn arbennig y plant fydd angen cefnogaeth ychwanegol oherwydd dirywiad iechyd meddwl.
- Ategwyd bod y camau nesaf yn dir hollol newydd i staff ysgolion gan nad ydynt erioed wedi ymdopi â realiti cyfnod ôl-pandemig.

Mewn ymateb i'r sylwadau nodwyd y canlynol:-

- Sicrhawyd y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio er lles tymor hir plant.
- Bydd pwyslais ar anghenion cyfan y dysgwyr - emosiynol, cymdeithasol a chorfforol.

**10. Y DAITH DDIWYGIO A DYSGU PROFESIYNOL**

**PENDERFYNIAD:**

Cydbwyllgor yn derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd trosolwg gan Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ar y sefyllfa bresennol ynghylch y Daith Ddiwygio gan ategu bod ysgolion mewn sefyllfaoedd wahanol yn nhermau parodrwydd a chapasiti.

Ategwyd er bod gweithdrefnau wedi arafu dros y cyfnod diwethaf, mae'r gwaith dal i barhau ar gyfer cefnogi Cwricwlwm i Gymru.

Diolchwyd y Cadeirydd, ar ran y Cydbwyllgor, am yr adroddiad gynhwysfawr.

**11. DYSGU O BELL AC YMGYSYLLTIAD RHIENI/GOFALWYR**

**PENDERFYNIAD:**

a) Cydbwyllgor yn derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.
b) Cefnogi'r strategaeth a'r gefnogaeth sydd mewn lle i ysgolion mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni/gofalwyr a dysgu o bell yng Ngogledd Cymru

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn cynnwys dwy ddogfen sydd â'r bwriad o gefnogi ysgolion a rhieni/gofalwyr a chynorthwyo ysgolion ymhellach i ymateb i gwestiynau ac ymholiadau ynghylch dysgu o bell. Ategwyd bod bwriad i ddatblygu strategaeth ranbarthol. ar gyfer gwella ymgysylltiad rhieni/gofalwyr fel y gallant gefnogi dysgu eu plant yn effeithiol yn ystod cyfnod COVID a thu hwnt.

Amlygwyd pwysigrwydd yr ymgysylltiad rhwng ysgolion a rhieni/gofalwyr dros y cyfnod dysgu o bell fel un o prif flaenoriaethau y cyfnod nesaf.

Diolchwyd y Cadeirydd, ar ran y Cydbwyllgor, am yr adroddiad gynhwysfawr.

**12. RHAGLENNI DYSGU CARLAM AR GYFER Y GYMRAEG**

**PENDERFYNIAD:**

Cydbwyllgor yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu rhaglenni dysgu carlam i blant a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg iaith gyntaf.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE gan nodi bod yr eitemau blaenorol wedi cyffwrdd â'r cynnwys. Rhoddwyd amlinelliad o'r cynnwys wrth nodi pwrpas yr adroddiad sef datblygu ymhellach rhaglenni dysgu carlam ar gyfer y Gymraeg iaith gyntaf.

Amlygwyd o fewn adroddiad thematig Estyn bod pryder ynghylch disgyblion yn colli'r Gymraeg a ddysgwyd yn yr ysgol, yn arbennig rhai sydd o aelwydydd di-gymraeg.

Diolchwyd y Cadeirydd, ar ran y Cydbwyllgor, am yr adroddiad gynhwysfawr.

## 13. CALENDR CYFARFODYDD 2021/2022

**PENDEFRYNIAD:**

Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel nodir yn atodiad 1**.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.17yp.

____________________________________

**CADEIRYDD**